

Cyngor Tref Pwllheli

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 6.00y.h. NOS IAU 3
RHAGFYR 2015 YN SIAMBR Y CYNGOR STRYD PENLAN PWLLHELI.

COPI DRAFFT.

Ar ddechrau'r Cyfarfod bu i'r Maer estyn croeso a llongyfarch y Cyng. Hefin Underwood ar gael ei ethol yn gynrychiolydd Ward De Pwllheli ar Gyngor Gwynedd

Cof;-0112/15 Presennol.

.....

Y Maer Cyng. M Sol Owen

Cyng.Jonathan Roberts, Eric Wyn Roberts, Dewi O Jones, Alan Williams, Iwan Edgar.
E J Hughes.

Cof;-0212/15 Ymddiheuriadau.

.....

Y Dirprwy Faer, Cyng. Henry Williams,

Cyng. Elfed Gruffydd, Mici Plwm, Ffiona Adams, Parch Ioan Gruffydd, Myrddin Owen,
Michael Parry, J G Owen.

Cof;-0312/15 Datgan Diddordeb.

.....

Ni fu i unrhyw Aelod ddatgan diddordeb mewn materion oedd wedi ei rhestru ar y rhaglen ac i'w trafod yn y cyfarfod

Cof;-0412/15 Gair gan y Maer.

.....

Gwelir adroddiad y Maer ar ddiwedd y cofnodion hyn.

Cof;-0512/15 Materion cyfansoddiadol a Staff.

.....

Nid oedd unrhyw fater i'w drafod.

Cof;-0612/15 Aelodau'r Cyhoedd yn bresennol.

.....

Yr oedd Aelod Sirol Ward y De a chynrychiolydd o'r Wasg yn bresennol.

Cyngor Tref Pwllheli

Cof;-0712/15 Cadarnhau Cofnodion Mis Tachwedd.

.....
Cadarnhawyd Cofnodion cyfarfod Mis Tachwedd fel rhai cywir a llofnodwyd hwy felly yn unol â'r gyfraith.

Cof;-0812/15 Materion yn codi trwy ohebiaeth.

.....
Nid oedd unrhyw fater yn codi.

Cof;-0912/15 Ceisiadau Cynllunio.

-
a) Cais Rhif C15/1234/45/LL
Estyniad i ochr a chefn y Fferyllfa.

L Rowland & Co. Ffordd Caerdydd.

PENDERFYNIAD;- Argymell Caniatáu

(Ni fu i'r Aelod lleol ar Gyngor Gwyneud y Cyng. M Sol Owen gymeryd rhan yn y drafodaeth, penderfyniad na phleidleisio ar y cynllun ucho)

Cof;-1012/15 Ffordd Caerdydd.

.....
Gofynnodd Aelod i'r Gyngor ystyried gwneud Ffordd Caerdydd Isaf yn unffordd o'r gylchfan ger Treflan i gyfeiriad Ffordd yr Ala, byddai hyn yn ei dyb ef yn lleddfu tipyn ar dagfa traffig mae'r gyffordd yn agos i'r goleuadau traffig yn y Maes a modurwyr sydd yn ceisio troi i mewn i'r ffordd yma o gyfeiriad Pen Llyn yn dal traffig yn ôl.

PENDERFYNIAD;- Gofynnwyd i'r Aelod ddarparu cynllun syml a'i gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor Tref i allu cael trafodaeth bellach ar y mater.

Cof;-1112/15 Rheolaeth parcio ar Allt Salem.

.....
Tynnwyd sylw gan Aelod fod yr arwydd rheoli parcio ar yr Allt wedi ei droi i gyfeiriad maes parcio Capel Salem ac nid oedd yn bosibl ei weld o'r stryd.
Fore dydd Sul 8 Tachwedd bu i 2 o breswylwyr y stryd gael dirwy am barcio anghyfreithlon a hynny am 8.20 y bore. Tybed oedd hyn yn deg.
Yn dilyn derbyn yr wybodaeth bu i'r Aelod fynd draw i weld trosto ei hun a sylwi fod yr wybodaeth yma yn hollol gywir bu iddo ddangos lluniau i'w gyd Gyngorwyr. Er bod Y Cyngor Tref wedi tynnu sylw Cyngor Gwynedd i hyn beth amser yn ôl, ni fu gweithredu ar

Cyngor Tref Pwllheli

y mater. Mae'r arwydd yn union yr un fath ac yr oedd yn ól yn Hydref 2012 pan dynnwyd llun y pryd hynny. Rhyfedd na fyddai'r Warden Traffig wedi tynnu sylw'r adran briodol i hyn. Mae hyn yn arwain y Cyngor Tref i drafodaeth a fu gyda Chyngor Gwynedd gan fod cyfyngiadau aros yn gyffredinol yn y Dref o Ddydd Llun i Ddydd Sadwrn ar wahân i Allt Salem a Penlon Llyn, ar y pryd eglurwyd fod y gwahaniaeth oherwydd traffig i'r Coleg, ond mae'r Coleg ar gau ar ddydd Sul.

Mewn cyfarfod gyda Chyngor Gwynedd ar yr 16 Awst 2010 cytunwyd i gyfyngu aros ar Ben Lôn Llyn rhwng 9 y bore a 5 yr hwyr o Ddydd Llun i Ddydd Sadwrn a thrafodaethau ar yr un llinellau ar Allt Salem ond nid oedd son am hyn yn y gorchymyn.

Ar y 25 Ionawr 2011 anfonwyd e bost i'r Swyddog perthnasol yng Ngwynedd yn egluro fod penderfyniad wedi ei wneud i wahardd parcio ar y ddwy stryd yma o Ddydd Llun i Ddydd Sadwrn yn unig o 9 y bore tan 5 yr hwyr, a bu i'r Swyddog ar y pryd ymddiheuro am adael rhai allan o'r map..

Cynigiwyd gan yr Aelod fod y Cyngor Tref yn anfon gair i Gyngor Gwynedd i ofyn am, wirio'r arwydd i ffordd iawn fel bod modurwyr yn ei weld yn glir, a bod yna drafodaeth bellach i newid cyfyngiad aros ar y ddwy stryd i Ddydd Llun i Ddydd Sadwrn.

PENDERFYNIAD;- Cytuno a chynnig yr Aelod ac felly cysylltu ymhellach a Chyngor Gwynedd

Cof;-1212/15 Cais am gyfraniad ariannol.

.....
Derbyniwyd cais am gefnogaeth ariannol oddi wrth Gyngor ar Bopeth.

PENDERFYNIAD;- Rhoi'r mater ar raglen y cyfarfod nesaf ar ól cael mwy o wybodaeth

Cof;-1312/15 Llifogydd.

.....
Nid oedd unrhyw fater i'w drafod.

Cof;-1412/15 Cofeb Cynan.

.....
Adroddodd y Maer fod pethau yn mynd ymlaen yn dda ar gyfer y noson arbennig yn Fis Ionawr, Mae'r Pen Ddelw a'r "stand" yn awr wedi ei gwblhau a bydd yr is bwyllgor yn cyfarfod i drefnu copi terfynol o'r rhaglen ar gyfer y noson.

Cof;-1512/15 Her Gwynedd.

.....
Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Gyngor Gwynedd yn amlinellu'r penawdau lle y bydd cyfeirio at doriadau posibl oherwydd y sefyllfa ariannol bresennol..

Mae'r rhestr yn cynnwys y canlynol;-

Lonydd glas (y Lonydd beicio)

Gwarchodfeydd Natur

Ardal o harddwch naturiol eithriadol ANHE Llyn

Glanhau Strydoedd - biniau stryd a baw can

Cyngor Tref Pwllheli

Llwybrau cyhoeddus
Cynnal Promenadau, meinciau ac arwyddion enwau strydoedd
Canolfannau Croeso
Pont yr Aber Caernarfon
Pont Abermaw
Amgueddfa Lloyd George
Toiledau Cyhoeddus
Neuadd Dwyfor

PENDERFYNIAD;-Derbyn yr wybdoeth.

Cof;-1612/15 Swyddfa Treth Incwm Porthmadog

.....
Deallwyd fod Swyddfa HRMC yn bwriadu cau ei Swyddfa ym Mhorthmadog yr unig Swyddfa sydd yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg, bydd ei chau yn golygu effaith negyddol iawn ar economi'r ardal a chyflogaeth,
Bu i'r Swyddfa yma ar un adeg gael ei lansio fel Prif Swyddfa i ddelio a chwsmeriaid trwy gyfrwng y Gymraeg.

PENDERFYNIAD;- Anfon gair i wrthwynebu cau'r Swyddfa bwysig yma.

Cof;- 1712/15 Presept 2016/17

.....
Anfonwyd copi o'r gyllideb am 2016/17 ymlaen llaw i'r Aelodau gael cyfle i'w astudio cyn y cyfarfod er mwyn gallu gwneud penderfyniad teg ar y presept.

PENDERFYNIAD;- Gan fod ansicrwydd ar y cyfrifoldebau a ddisgwylir i'r Cyngor Tref gymeryd trosoddvgan y Cyngor Sir codi y prespt £1,000.

Cof;-1812/15 Trefi Taclus

.....
Diolchwyd i swyddogion Trefi Taclus am roi sylw buan i rai o'r materion a godwyd mewn cyfarfod safle yn ddiweddar ond sylwyd nad yw'r gwaith wedi ei lawn orffen, mae angen ail gyfeirio arwydd Stryd Fawr sydd ar y polyn stryd yng nghyffordd Stryd Penlan.

PENDERFYNIAD;- Anfon gair o ddiolch i'r swyddogion ac ar yr un pryd tynnu ei sylw i'r arwydd "Stryd Fawr"

Cyngor Tref Pwllheli

Cof;- 1912/15 Derbyniadau.
.....

£250.00 Rhent Arcêd
£250.00 Rhent Arcêd
£ 3.08 Llog N S Bond
£2100.00 Cyfraniad Cyngor Gwynedd at gynnal a chadw llwybrau.

Cof;-2012/15 Taliadau
.....

£ 100.00 Cyfraniad i Gaffi'r Cof (Cof 1311/15)	202717
£ 500.00 Cyfraniad i Glwb Pêl Droed Pwllheli (Cof 1311/15)	202718
£2000.00 Cyfraniad i Hwyl yr Wyl (Cof 1311/15)	202719
£ 50.00 Mrs Roberts -Glanhau'r Siambr	202720
£ 292.35 Cyllid y Wlad (PAYE)	202722
£ 432.00 Mr G Jones - Gofalu am y Cloc	202723
£ 16.20 R Hughes - clerc i bwyllgor TCC yng Nghaernarfon	202724
£ 63.00 Swyddfa Bost - Stampiau	202725
£ 199.00 Cymdeithas y Clercod (SLCC)	202726
£169.20 W J Adeiladwyr –gwaith argyfwng ar do'r Siambr (Storm)	S100016
£ 383.95 Glasfryn – Coeden Nadolig	202727
£ 7.51 Kon X Wales – Llun Gopio	202728
£ 988.96 Llyn Joinery – “stand” i ddal Pen Ddelw Cynan	202729

Daeth y cyfarfod i ben am 7.30y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref Nos Iau 7 Ionawr 2016.

Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau 28 Rhagfyr 2015.
